# Dyfodol gydag Ysgol Gynradd Bancffosfelen



# Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys ........ 2

Cyflwyniad ........ 3

1. Y Cynnig - Ffordd Newydd o Weithio Gyda'r Gymuned ........ 4

2. Cynllun Gweithredu ar gyfer Y Cynnig ........ 5

2.1 Blwyddyn 1 – Blwyddyn Ariannol 2016/17 ........ 5

2.2 Blwyddyn 2 – Blwyddyn ariannol 2017/18 (neu ynghynt) ........ 7

3. Heriau i Gynnig Swyddogion yr Awdurdod Lleol ........ 8

Atodiad A – Hanes Niferoedd Disgyblion Bancffosfelen ........ 10

## Cyflwyniad

Mae Ysgol Bancffosfelen yn ysgol gynradd bentrefol sy'n cynnal safonau da. Mae'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn elwa o ddarpariaeth addysgol dda ac yn cael budd yn sgîl pwysigrwydd yr ysgol yng nghalon y gymuned a'r gwerth ychwanegol a geir trwy gefnogaeth ac ymgysylltiad cryf rhieni a'r gymuned ehangach gyda'r ysgol. Mae'r ysgol yn wynebu heriau sylweddol, yn bennaf yn sgîl cyflwr rhannau o'r adeilad. Mae'r Corff Llywodraethol ynghyd â rhieni a chyfeillion yr ysgol yn awyddus i symud ymlaen, gyda chydweithrediad yr Awdurdod Addysg Lleol, â chynlluniau arloesol i ddatrys yr heriau ac i ddatblygu model newydd i gynnal a datblygu'r ysgol.

Mae swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gâr wedi hysbysu Llywodraethwyr Ysgol Bancffosfelen o'u bwriad i geisio cymeradwyaeth y Cyngor Sir i gynnal ymgynghoriad ar ddyfodol yr Ysgol, gan ddatgan mai'r opsiwn a ffefrir ganddynt yw cau ysgol Bancffosfelen a throsglwyddo'r disgyblion a'r dalgylch i Ysgol Pontyberem. Yn ogystal ag amddifadu'r plant a'r pentref o fanteision addysg gynradd safonol yng nghalon y gymuned, mae nifer o anawsterau ymarferol yn gysylltiedig â'r cynnig hwnnw.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cynnig gwahanol ar gyfer dyfodol Bancffosfelen i'w ystyried gan Gyngor Sir Gâr. Mae'n cynnwys cynllun gweithredu y mae Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Bancffosfelen yn dymuno ei ddilyn fel cynllun busnes er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r ysgol. Gyda chydweithrediad yr Awdurdod Addysg Lleol, gall y datblygiad hwn fod yn gynllun peilot all gynnig opsiwn newydd sy'n ateb cadarnhaol i'r heriau sy'n wynebu ysgolion, eu cymunedau a'r awdurdod addysg mewn rhannau eraill o Sir Gâr a thu hwnt.





## 1. Y Cynnig – Ffordd Newydd o Weithio Gyda'r Gymuned

Cyflwynir y cynnig hwn ar ran grŵp sy'n cynnwys Llywodraethwyr Ysgol Bancffosfelen ynghyd â chynrychiolaeth ehangach o blith rhieni a'r gymuned. Sylweddolwn nad yw Cynghorwyr na swyddogion yr Awdurdod Lleol yn dymuno gweld ysgolion yn cau, ond deallwn hefyd bod angen canfod atebion i'r heriau o geisio cynnal ystâd eang o adeiladau ysgolion â'u gofynion cynnal a chadw gan sicrhau amgylchedd addas ar gyfer y gofynion addysgol diweddaraf o fewn sefyllfa o brinder adnoddau/cyllid. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i Gyngor Sir Gâr gydweithio gyda rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yng nghylch Bancffosfelen ar ddatblygu model gwirioneddol arloesol – cynllun fydd yn torri cwys newydd ac a allai fod o ddiddordeb i gymunedau ac awdurdodau addysg ar hyd a lled Cymru a thu hwnt.

Pan fydd ysgol yn cau, mae gan y Cyngor Sir bolisi o gynnig yr asedau at ddefnydd y gymuned leol os yw'r gymuned yn awyddus ac yn abl i gynnal y lleoliad. O weithredu'r cynnig hwn, byddai'r cam o drosglwyddo adeilad a champws Ysgol Bancffosfelen i ofal sefydliad elusennol cymunedol yn digwydd **heb** gau'r ysgol, a hynny gyda'r nod o gynnal yr ysgol yn gwbl ganolog i'r trefniant. Byddai'r corff cymunedol yn cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu'r safle mewn modd fyddai'n sicrhau gofod addas i gynnal ysgol yn yr 21ainG ochr yn ochr â defnydd cymunedol ehangach.

Nid yw'r opsiwn hwn yn un i'w gynnig yn ysgafn – sylweddolwn bod cyfrifoldeb mawr ynghlwm â'r cynllun. Sylweddolwn hefyd bod gwaith manwl pellach i'w gwblhau i gadarnhau trefniadau llywodraethu a chyllido ac i brofi dichonoldeb y cynllun. Fodd bynnag, gyda Llywodraeth Cymru yn annog datblygu modelau o ysgolion sy'n arloesi a'r awydd yng nghymuned ysgol Bancffosfelen i ymroi i gefnogi'r dull newydd arfaethedig o weithio, mae cyfle gwirioneddol i Sir Gâr lwyddo i ganfod datrysiad newydd arloesol yma.

Gofynnwn felly i'r Cyngor Sir gefnogi'r ymdrechion hyn ac i roi unrhyw ymgynghoriad ar gynlluniau i gau'r ysgol o'r neilltu er mwyn rhoi cyfle i'r Corff Llywodraethol weithio gyda swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol i fireinio'r cynllun hwn a chynnal yr ymgynghoriadau priodol ynghylch y cynigion a gyflwynir yma dros y flwyddyn nesaf.

## 2. Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynnig

### 2.1 Blwyddyn 1 – Blwyddyn Ariannol 2016/17

#### Rhoi'r Gorau i Ddefnyddio Ystafelloedd Dosbarth Anffit

Wedi ymgynghori gyda'r Awdurdod Lleol, adleolwyd dosbarth y Cyfnod Sylfaen i ran arall o'r adeilad. Mae'r Cylch Meithrin (fu'n rhannu'r rhan hon o'r adeilad) hefyd wedi ei symud i neuadd yr ysgol. Dim ond toiledau sy'n parhau i gael eu defnyddio yn y rhan hon o'r adeilad ar hyn o bryd.

Er mwyn rhoi'r gorau yn llwyr i bob defnydd ar yr ardaloedd anffit, gwneir mân addasiadau i gyfleusterau toiled mewn rhan arall o'r ysgol ar gyfer defnydd plant y Cylch Meithrin. Bydd strwythur mwy parhaol yn cael ei godi yn neuadd yr ysgol hefyd i gymryd lle'r cypyrddau sy'n cael eu defnyddio i fel muriau dros dro i'r Cylch. Fel mesur dros dro wedyn, bydd y drysau i'r ardal na fydd yn cael ei defnyddio yn cael eu selio fel nad oes modd i unrhyw un gael mynediad heb fod wedi eu goruchwylio a/neu â chaniatâd.

#### Datblygu Gofod ac Adnoddau'r Cyfnod Sylfaen

Bydd adnoddau'n cael eu caffael a gwaith ailgyflunio'n cael ei gwblhau er mwyn cryfhau'r lleoliad ar gyfer darparu addysg y Cyfnod Sylfaen, yn cynnwys darpariaeth yn yr awyr agored.

#### Ail-gyfrif Capasiti'r Ysgol

Yn nogfen Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru 2011[1], cyfeirir yn adran 1.25, rhan (a) at y gallu i ail-gyfrif capasiti ysgol ble bydd "amgylchiadau wedi newid yn sylweddol". Ymhellach, mae adran 4.5 yn amlinellu amgylchiadau ble gallai hyn fod yn berthnasol. Un enghraifft yw:

> *"Angen cael gwared ar ystafelloedd anfoddhaol na fyddai'n gost-effeithiol i'w hatgyweirio neu eu disodli, a bod digon o leoedd ysgol addas eraill yn yr ardal. (Fel arfer, bydd hyn yn berthnasol i ystafelloedd dosbarth dros dro ond gallai fod yn berthnasol yn achos blociau annibynnol anfoddhaol y byddai'n ymarferol cael gwared arnynt)."*

O ystyried cyflwr presennol yr ystafelloedd dosbarth yn yr ysgol nad ydynt yn cael eu defnyddio, nid yw capasiti cyfredol yr ysgol yn adlewyrchu'r defnydd o ofod dysgu. Mae'r adrannau uchod yn amlinellu amgylchiadau sy'n sail i gais rhesymol y gallai'r Awdurdod Addysg weithredu ar yr ail-gyfrif hwn y tu allan i'r amserlen arferol.

#### Ail-Gategoreiddio yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir

Yn wyneb y cyfyngiadau cyllidol, mae'r Corff Llywodraethol am gynnig ymgynghori ynghylch ail-gategoreiddio Ysgol Bancffosfelen yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. Gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol, byddai hyn

1 Mesur Capasiti Ysgolion yng Ngymru 2011 - http://gov.wales/docs/dcells/publications/111104measuringcapacitycy.pdf

yn arwain at sefydlu ymddiriedolaeth elusennol gymunedol ac yn galluogi'r gymuned i godi arian er mwyn cynnal a datblygu campws yr ysgol, gan sicrhau dyfodol i'r ysgol yn ogystal ag adnoddau at ddefnydd cymunedol.

Mae'r Llywodraethwyr eisoes wedi bod mewn cyswllt â nifer o noddwyr posibl a ffynonellau cyllid grant blynyddol. Credwn fod y model hwn yn un fyddai'n bodloni gofynion adran 1.10 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013[2].

## Archwilio Darpariaeth Lleoedd Meithrin

O weithredu'r opsiwn a ffefrir ar hyn o bryd gan swyddogion yr Awdurdod, byddai Cylch Meithrin Bancffosfelen yn cau yn ogystal â'r ysgol. Byddai hynny'n cyfyngu ar y ddarpariaeth i blant 3 oed yn yr ardal ac yn creu sefyllfa ble na byddai cyflenwad digonol o leoedd i gwrdd â'r galw. Mae'r Corff Llywodraethol yn awyddus i ddiogelu'r ddarpariaeth feithrin a'i ddatblygu ymhellach.

I'r perwyl hwn, cynigir dechrau ymgynghori ynghylch ychwanegu darpariaeth feithrin i ddisgyblion 3 oed yn Ysgol Bancffosfelen. Byddai'r galw am ddarpariaeth i blant o dan 3 oed yn y Cylch Meithrin a hyfywedd y ddarpariaeth honno yn ystyriaeth bwysig yn yr ymgynghoriad hwn. Petai'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddai cymuned Bancffosfelen yn cadw ei hysgol gyda darpariaeth i blant 3 oed yno wedi ei hychwanegu. Prin yw'r cyfleoedd i blant 3 oed dderbyn addysg brif ffrwd yng Nghwm Gwendraeth. Dim ond dwy ysgol yn y cylch (Cross Hands a Trimsaran) sydd â darpariaeth o'r fath, ac mae pellter o 7 ac 8 milltir yn eu tro i'r ysgolion hynny.

Yng ngeiriau'r Awdurdod Lleol:

> *"Mae nifer o fanteision i fynychu ysgol sy'n cynnig darpariaeth feithrin, yn cynnwys;*
>
> - *I blant sy'n mynychu lleoliad meithrin o fewn yr ysgol, mae'r trosglwyddiad i addysg gynradd yn haws ac yn aml maent yn 'setlo' yn gynt na phlant nad ydynt wedi cael mynediad i ddarpariaeth feithrin.*
> - *Gellir adnabod materion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ynghynt a chyn i'r plentyn fynychu addysg gynradd lawn amser.*
> - *Mae astudiaethau wedi dangos bod plant sy'n mynychu darpariaeth feithrin cyn-ysgol yn cryfhau eu datblygiad wybyddol a chymdeithasol / ymddygiadol o'u cymharu â phlant nad ydynt yn mynychu addysg feithrin.*

*Mae darpariaeth feithrin o fewn lleoliad pentref hefyd o fudd i'r ysgol gan bod rhieni yn tueddu i anfon eu plant ymlaen i'r ysgol sy'n darparu'r Addysg Blynyddoedd Cynnar gan wella'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol."*

2 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 - http://gov.wales/docs/dcells/publications/130719-school-organisation-codes-cy.pdf

### Datblygu a Gweithredu Rhaglen Fuddsoddi Cyfalaf

Bydd amserlen ar gyfer delio â gofynion cynnal a chadw a datblygu adeilad yr ysgol yn cael ei datblygu a'i gweithredu gan y corff ym Mancffosfelen, gyda golwg ar gyfyngiadau cyllidol cyfredol ac i'r dyfodol.

## 2.2 Blwyddyn 2 – Blwyddyn Ariannol 2017/18 (neu ynghynt lle bo'n ymarferol)

### Cyflwyno Statws Newydd yr Ysgol

Bancffosfelen yn dechrau gweithredu fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir.

### Dechrau Derbyn Plant 3 oed

Gall Bancffosfelen ddechrau derbyn plant 3 oed o newid i fod yn ysgol 3-11 oed (yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad).

### Tynnu'r Gofod Dosbarth Anffit i Lawr neu ei Ailddatblygu

Gydag ystyriaeth i ragamcanion diwygiedig ar gyfer niferoedd disgyblion a'r angen i sicrhau gofod digonol, bydd y Corff Llywodraethu yn gwaredu'r adeilad ble lleolir y gofod dosbarth anffit wedi cadarnhau nad oes mo'i angen.

### Symud Ymlaen o Sefyllfa Pennaeth Dros Dro

Bydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu i sicrhau trefniant parhaol ar gyfer swyddogaeth Pennaeth yr ysgol – rhywbeth sy'n hanfodol i sefydlogrwydd yr ysgol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gwerthfawrogir bod y trefniant presennol o rannu pennaeth gydag ysgol Pontyberem yn un sydd wedi gweithio'n dda dros y ddwy flynedd diwethaf ac fe ymchwilir i'r opsiwn o sicrhau trefniant parhaol ar y sail honno yn ogystal ag opsiynau eraill. Mae rhannu prifathrawiaeth rhwng ysgolion yn drefniant cyffredin iawn yn y dyddiau sydd ohoni ac fe welir bod gan Ysgol Bancffosfelen lawer i'w gynnig ac i'w ennill o rannu prifathrawiaeth gydag ysgol arall. Felly, er y bydd pob opsiwn yn cael ei ymchwilio, rhagwelir y bydd rhannu Pennaeth yn nodwedd debygol yn y datrysiad.

### Datblygu Defnydd Cymunedol yn yr Ysgol

Yn unol â'r cymathu pellach rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach, bydd y Corff Llywodraethol yn awyddus i ddatblygu amrywiaeth o ddarpariaethau cymunedol yn y safle. Ymhlith y posibiliadau sy'n cael eu hystyried y mae: adnoddau chwaraeon bob tywydd, cyrsiau a gweithgareddau i oedolion, Ti a Fi, gofal plant, darpariaeth cinio i'r henoed, a chyfleusterau cyfarfod a chynadledda. Bydd cynlluniau yn cael eu gweithredu i ddatblygu fesul cam a sicrhau ffynonellau cyllid cyfalaf a refeniw lle bo angen.

## 3. Heriau i Gynnig Arfaethedig yr Awdurdod

### 3.1 Lleihad yn Niferoedd y Disgyblion

Er bod y Corff Llywodraethol yn derbyn bod niferoedd disgyblion yr ysgol wedi lleihau yn y blynyddoedd diweddar, gellir dadlau bod datganiad cyhoeddus yr Awdurdod Lleol o'u bwriad i gau'r ysgol yn ffactor allweddol yn creu stigma ac ansicrwydd ymhlith rhieni a darpar-rieni.

Yn wir, roedd 63 o ddisgyblion wedi eu cofrestru gyda'r ysgol ym mis Ionawr 2005. Fodd bynnag, wedi i Ysgol Bancffosfelen gael ei chynnwys ar restr o ysgolion fyddai'n cau o dan gynllun moderneiddio ysgolion 10-mlynedd Cyngor Sir Gâr a gyhoeddwyd yn 2006, gwelwyd gostyngiad yn y niferoedd i 35 erbyn cyfrifiad mis Ionawr 2007.

Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at y cynnydd a welwyd yn niferoedd y disgyblion rhwng 2008 a 2013[3]. Roedd peth o'r cynnydd hwn o ganlyniad i benderfyniad yr Awdurdod Lleol i gau Ysgol Gynradd Mynyddcerrig. Mae'r canlyniad hwn yn un diddorol, o ystyried bod dalgylch Mynyddcerrig wedi ei drosglwyddo gan fwyaf i fod yn rhan o ddalgylch Pontyberem (a dim ychwanegiad at ddalgylch Bancffosfelen er gwaethaf yr agosrwydd daearyddol).

Er bod y niferoedd ym Mancffosfelen wedi gostwng ers hynny, mae'r patrwm o lanw a thrai yn awgrymu bod cynnydd yn debygol yn niferoedd yr ysgol dros y ddwy flynedd nesaf. Yr ydym yn argyhoeddedig y byddai sicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol yn lliniaru amheuon rhieni i ddarpar-ddisgyblion ynghylch dewis anfon eu plant i Ysgol Bancffosfelen.

### 3.2 Darparu Cwricwlwm i Ddosbarthiadau Oedran Cymysg

Ni cheir unrhyw dystiolaeth bod yr ysgol yn cael anhawster i ddarparu cwricwlwm sy'n ddigon heriol. A dweud y gwir, mae cyflawniad yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wedi gwella neu wedi aros uwchben cymaryddion gyda Theulu Set Ddata Craidd Cymru Gyfan yr ysgol; yr Awdurdod Lleol; a Chymru.

Gyda niferoedd bach, derbynnir bod Dangosydd Cyfnod Sylfaen neu Ddangosydd Pynciau Craidd yr ysgol yn agored i amrywiadau eithafol o ganlyniad i safonau cyflawniad un neu ddau o ddisgyblion o flwyddyn i flwyddyn (yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol). Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y safonau hyn wedi parhau i wella neu aros ar lefelau uchel yn adlewyrchu ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd o dan ofal y staff addysgu.

Cred y Corff Llywodraethol hefyd bod manteision i'r disgyblion o gael eu dysgu mewn grwpiau oedran cymysg. Mae'n sefyllfa sy'n esgor ar fwy o gyfleoedd i herio disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn ogystal â darparu mwy o ddyfnder yn y dosbarth i ddisgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol.

3 Gweler Atodiad A – Hanes Niferoedd Disgyblion Bancffosfelen

Ymhellach, mae dosbarthiadau oedran cymysg yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion Bancffosfelen ddysgu empathi a dealltwriaeth tuag at blant ar draws ystod o oedrannau, gallu a chefndir. Byddai llawer o'r manteision hyn yn cael eu colli mewn ysgol fwy ble mae dosbarthiadau yn cynnwys un grŵp oedran a gellir dadlau y byddai'n culhau canfyddiadau'r disgyblion.

### 3.3 Darpariaeth Feithrin

Yn unol â'r hyn a amlinellwyd uchod, byddai'r Corff Llywodraethol am ymchwilio ymhellach i ddyfodol darpariaeth i blant 3 oed ym Mancffosfelen. Mae'n bwysig nodi yma fodd bynnag, bod y Corff Llywodraethol wedi canfod yn sgil ymholiadau nad oes digon o leoedd i blant Cylch Meithrin Bancffosfelen yn y Cylch a gynhelir yn Neuadd Goffa Pontyberem, sef y lleoliad y byddai disgwyl iddynt ei fynychu o dan gynnig arfaethedig yr Awdurdod Lleol.

## Atodiad A – Hanes Niferoedd Disgyblion Bancffosfelen

| Blwyddyn | Oedran | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | Cyfanswm |
| 2003 | 4 | 6 | 4 | 8 | 12 | 8 | 7 | 5 | 54 |
| 2004 | 3 | 8 | 6 | 5 | 8 | 13 | 10 | 7 | 60 |
| 2005 | 4 | 7 | 10 | 6 | 5 | 8 | 13 | 10 | 63 |
| 2006 | 3 | 4 | 5 | 6 | 6 | 4 | 5 | 12 | 45 |
| 2007 | 2 | 5 | 4 | 3 | 6 | 6 | 4 | 5 | 35 |
| 2008 | 5 | 4 | 5 | 5 | 1 | 8 | 8 | 4 | 40 |
| 2009 | 1 | 8 | 5 | 5 | 4 | 1 | 7 | 8 | 39 |
| 2010 | 7 | 1 | 9 | 5 | 7 | 5 | 3 | 9 | 46 |
| 2011 | 7 | 8 | 1 | 10 | 5 | 7 | 5 | 5 | 48 |
| 2012 | 4 | 8 | 8 | 1 | 9 | 5 | 6 | 5 | 46 |
| 2013 | 0 | 8 | 7 | 9 | 1 | 8 | 6 | 6 | 45 |
| 2014 | 1 | 3 | 8 | 6 | 8 | 0 | 7 | 4 | 37 |
| 2015 | 1 | 5 | 2 | 7 | 6 | 7 | 0 | 7 | 35 |
| 2016 | 2 | 4 | 5 | 3 | 8 | 6 | 7 | 0 | 35 |